Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar yr 2il o Fai 2019 yng Nghanolfan Prenteg

1 Presennol – Edward Evans (Cadeirydd) Richard Parry – Bryncir, Anwen Humphreys Clifford Williams– Garndolbenmaen, Richard Williams Gwilym Evans – Prenteg, Dafydd Thomas – Penmorfa, Huw Pritchard Delyth Evans– Pentrefelin, Megan Ll Williams– Golan.

2 Ymddiheuriadau – Amanda N Owen, John Jones, Maldwyn Owen, Gwenno Huws, Cynghorydd Alwyn Gruffydd.

3 Ddim yn bresennol- neb.

4 Datgan buddiant – neb

5 Cywirdeb y cyn-gofnodion – 4/04/19 Richard Parry yn datgan eu cywirdeb a Richard Williams yn eilio.

6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion

Lloches bws Pentrefelin - mae'r safle ar y tir lle roedd y cisog yn dderbyniol gan y preswyliwr wnaeth y cais. Mae hefyd, wedi holi am safle wrth Cartref i gyfeiriad Criccieth. Clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd i'w hysbysu o hyn a chael cyngor am eu haddasrwydd.

Materion cynnal a chadw Mynwentydd Bethel a Chwm Pennant – Dylan Edwards heb gael cyfle i edrych ar y gwaith sydd angen ei wneud.

Materion Priffyrdd ardal Pentrefelin - Bocs halen ar dop allt Tŷ Mawr wedi ei dynnu o'r safle. Tyllau yn lôn Treflys o Bont Wern at Fryn Derwen - mae'r gwaith wedi ei gynnwys ar y rhestr waith clytio.

Cyfoeth Naturiol Cymru – coed yn yr afon yng Nghwm Pennant a Phont y Traeth. Heb dderbyn ateb. Clerc i gysylltu eto.

Materion ail-gylchu Prenteg a Garndolbenmaen - Adroddodd y Clerc ei bod ers mis Chwefror, wedi cysylltu gydag Adran Gorfodaeth, Cyngor Gwynedd, ar sawl achlysur, drwy e-byst a galwadau ffôn. Nid yw wedi derbyn ateb. Penderfynwyd gyrru cwyn swyddogol at Gyngor Gwynedd. Megan Ll Williams yn cynnig a Gwilym Evans yn eilio.

7 Mynwentydd

Prenteg – gwair wedi cael ei dorri.

Mynwent Bethel

Ysbwriel yn cael ei adael unwaith eto yn y Fynwent. Cynnwys yn Adroddiad y Wasg. Trafodwyd yr angen i adnewyddu'r arwyddion ar dir y Fynwent. Megan Ll Williams am ymweld â'r Fynwent i edrych ar yr arwyddion presennol.

Ynyscynhaearn

Gwair wedi cael ei dorri. Contractwr wedi hysbysu un o'r Cynghorwyr fod twrch daear yno. Huw Pritchard am ymweld â'r fynwent.

8 Llwybrau Cyhoeddus

Llwybr Ysgol Golan – Er gwybodaeth, wal wrth ochor y Ganolfan yn cael ei atgyweirio.

Llwybr Rhif 90 Pant Rhedyn – Tŷ Mynydd – drain yn cau'r llwybr. Clerc i gysylltu gyda'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd.

9 Adroddiad Pentrefi

Pentrefelin

Adroddwyd fod Cyngor Gwynedd wedi tacluso Lôn Tabor.

Penmorfa

Adroddodd y Clerc bod Gwenno Huws wedi ei hysbysu bod y Pwyllgor Cae Chwarae yn bwriadu gwneud cais am arian i brynu offer ar gyfer y cae chwarae. Bydd y mater yn cael ei drafod ymhellach ar ôl derbyn manylion pellach gan y Pwyllgor Cae Chwarae.

10 Unllais Cymru Cynrychiolydd ar Fwrdd Betsi Cadwaladr

Trafodwyd manylion y pum ymgeisydd sydd wedi rhoi eu henwau ymlaen i gynrychioli Unllais ar Fwrdd Betsi Cadwaladr. Penderfynwyd cefnogi cais Michael Parry. Dafydd Thomas yn cynnig a Megan L Williams yn eilio.

11 Cyfethol Cynghorwyr

Rhannwyd rhybudd o seddau gwag achlysurol Ward Penmorfa a Ward Pentrefelin i'w harddangos ym mhob Ward.

12 Pwyllgorau

Adolygwyd is-bwyllgorau'r Cyngor. Y mater i'w drafod ymhellach yng nghyfarfod mis Mehefin.

13 Gohebiaeth
Llythyrau gan Cyngor Gwynedd – Adran Priffyrdd Rhaglen Waith Trafnidiaeth Ebrill 2019 Penmorfa a Pentrefelin (gyrrwyd at DT, GEH, HP, DE).

Gohebiaeth ychwanegol

a Unllais Cymru – taliadau i Aelodau Cynghorau Cymuned a Thref.
b Newyddion Ebrill Arloesi Gwynedd Wledig.
c Ychwanegwyd – llythyr o ddiolch am y rhodd ariannol gan Ganolfan Pentrefelin.

14 Cynllunio

Rhestrau 8/4, 12/4 Ychwanegwyd 1/5/19.

Ceisiadau Cynllunio

NP2/16/108H Codi stabl a storfa. Plas Pennant, Cwm Pennant, Garndolbenmaen. LL51 9AX Dyddiad cau 24/4/19. Dim gwrthwynebiad.

NP2/16/449A Dymchwel beudy/gweithdy segur a chodi tŷ newydd. Ar y Bryn, Golan, Garndolbenmaen. LL51 9YT Gwrthwynebu ar sail y safle mewn perthynas â'r tŷ presennol.

Ychwanegwyd

C19/0133/36/LL Codi sied amaethyddol i gadw gwartheg gyda pit cysylltiol. Bwlch Gwyn Cennin, Bryncir. LL51 9 EX Dim gwrthwynebiad.

15 Materion Ariannol

Arwyddwyd cytundeb newydd rhwng y Cyngor a'r Archwilydd Mewnol.

Ceisiadau am arian: dim.

Monitro'r gyllideb:

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	=	£ 246.53
Ffôn	=	£ 10.00
Cyfrifiadur	=	£ 15.00
HMRC	=	£ 61.63
Zurich	=	£ 1,072.29
Idris Jones	=	£ 2,082.00

Ychwanegwyd:

Gwasg y Bwthyn	=	£ 6.12
Aled Jones	=	£ 75.00

Derbyniadau: Pritchard & Griffiths £220.00.
E Owens £170.00

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,801.00 Cyfredol £12,350.64

16 Dewis gohebiaeth i fynd i'r wasg/gwefan

- Cyfarfod Blynyddol
- Mynwent Bethel
- Adroddiad Blynyddol y Cyngor
- Ceisiadau Cynllunio

Gwefan – Cofnodion Ebrill, Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2018, Hysbyseb Cyfethol Cynghorwyr, Adroddiad Blynyddol y Cyngor.